# Canllawiau ar geisiadau am drwydded amgylcheddol

# Rhan MPP2

# Cais i ddefnyddio offer

## Cynnwys


Nodiadau cyffredinol ... 3
Yr hyn y mae angen i chi ei wneud ... 4
Faint y bydd yn ei gostio? ... 4
Cwblhau'r ffurflen ... 5
Ynglŷn â'ch trwydded ... 5
Y drwydded sy'n berthnasol i'r defnydd hwn ... 5
Enw a chyfeiriad deiliad y drwydded (gweithredwr) ... 5
Â phwy y gallwn siarad ynghylch y cais hwn i ddefnyddio offer? ... 5
Manylion defnyddio ... 5
A ymgynghorwyd â ni ar eich model safle cysyniadol / asesiad risg / strategaeth adfer? ... 5
A fu unrhyw newidiadau i'ch cynnig ers yr ymgynghoriad? ... 5
Os nad ydych wedi cael unrhyw gyngor ynghylch cynllunio neu gyngor cyn ymgeisio, a hoffech chi i'r cais hwn gael ei asesu heb i dargedau adfer gael eu cytuno ymlaen llaw gennym ni? ... 6
A ydych chi wedi cael unrhyw gyngor arall cyn ymgeisio gennym ni? ... 6
Ynglŷn â'r safle ... 6
Manylion y safle ... 6
A ydyw eich safle wedi'i leoli o fewn safle a gwmpesir gan drwydded amgylcheddol arall? ... 6
Atodwch gynllun safle yn dangos y darn o dir lle bydd y driniaeth yn digwydd ... 6
Mathau a meintiau'r gwastraff ... 7
Nodwch y mathau o wastraff, meintiau, halogion, a chod y Catalog Gwastraff Ewropeaidd ar gyfer pob gwastraff i'w drin ar y safle. Hefyd, darparwch fanylion y technolegau trin i'w defnyddio ar gyfer pob gwastraff ... 7
Gweithgareddau penodol i'w cynnal ar y safle ... 8
Rhowch fanylion am sut mae'r dechnoleg benodol yn addas ar gyfer y driniaeth ... 8
Rhowch fanylion sut y mae deunyddiau / gwastraff gweddilliol na ellir eu trin gan y dechnoleg benodol i gael eu trin ar y safle ... 8
Nodwch alluoedd mwyaf posibl y cyfleusterau cwarantîn i'w defnyddio ar gyfer storio deunyddiau halogedig y bwriedir eu hailbrofi, eu hailbrosesu neu eu gwaredu oddi ar y safle ... 8
Gweithgareddau sy'n cynnwys mewnforio gwastraff ... 8

A ydyw'r safle yn rhan o brosiect clwstwr? .... 8
Rhowch fanylion y gweithdrefnau sydd i'w mabwysiadu ar y safle i sicrhau mai dim ond y deunyddiau hynny y gellir eu trin â'r dechnoleg benodol fydd yn cael eu trin .... 9
Hyd y defnydd hwn .... 9
Am ba hyd (cyfnod penodedig) y mae angen y ffurflen defnyddio offer hon? .... 9
Goruchwyliaeth reoli .... 9
Rhowch enw a manylion cyswllt y rheolwr technegol gymwys a'r unigolyn cymwys enwebedig a fydd yn goruchwylio'r defnydd hwn o offer .... 9
Rhowch wybodaeth am y cynllun goruchwylio safle i'ch rheolwr sy'n dechnegol gymwys. Nodwch pa ddulliau trin y gellir eu gweithredu heb oruchwyliaeth, a rhowch gyfiawnhad o ran pam y dylai hyn fod yn wir .... 10
Model safle cysyniadol ac asesiad risg .... 10
Darparwch fodel safle cysyniadol sy'n nodi'r holl gysylltiadau llygredd credadwy (perthnasau ffynhonnell–llwybr–derbynnydd) ac effeithiau posibl ar yr amgylchedd lleol a allai godi o ganlyniad i'r gweithgareddau triniaeth arfaethedig .... 10
Dod o hyd i wybodaeth am dderbynyddion sensitif .... 11
Rheoli llygredd .... 11
Rhowch fanylion unrhyw fesurau penodol i'r safle y mae eu hangen i reoli / lleihau allyriadau, ac i atal llygredd i'r amgylchedd a/neu niwed i iechyd pobl sy'n deillio o'ch gwaith trin .... 11
Cynlluniau monitro allyriadau .... 12
Darparwch gynllun monitro penodol i'r safle ar gyfer unrhyw allyriadau a all gael eu cynhyrchu gan y gwaith trin arfaethedig .... 12
Monitro sŵn .... 13
Cadw cofnodion – comisiynu, gweithredu a chynnal a chadw .... 13
Rhowch fanylion comisiynu, gweithredu a chynnal a chadw, gan gynnwys dogfennaeth a chadw cofnodion, i sicrhau nad yw allyriadau o'r broses yn achosi llygredd i'r amgylchedd a niwed i iechyd pobl .... 13
Canllawiau ychwanegol mewn perthynas â chomisiynu: .... 14

# Nodiadau cyffredinol

Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus cyn cwblhau'r ffurflenni. Gellir dod o hyd i'r holl ddogfennau canllaw perthnasol ar ein gwefan, neu maent ar gael ar gais.

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i lenwi ffurflen gais MPP2 ar gyfer defnyddio offer symudol lle mae gan y gweithredwr drwydded sy'n cyfeirio at y canlynol:

- Rheolau safonol SR2008 Rhif 27 Offer symudol ar gyfer trin priddoedd a deunyddiau, sylweddau neu gynhyrchion halogedig
- Trwydded offer symudol bwrpasol ar gyfer trin priddoedd gwastraff a deunyddiau, sylweddau neu gynhyrchion halogedig
- Trwydded bwrpasol ar gyfer triniaeth gan ddefnyddio offer symudol

Cyn y gallwch ddefnyddio eich trwydded offer symudol ar safle, mae'n rhaid eich bod wedi llenwi ffurflen defnyddio offer a'i hanfon at Cyfoeth Naturiol Cymru gydag unrhyw wybodaeth ychwanegol angenrheidiol. Dim ond ar ôl i Cyfoeth Naturiol Cymru roi ei ganiatâd yn ysgrifenedig i'r ffurflen defnyddio offer hon y gall y gwaith gwastraff gychwyn ar y safle.

Mae'r gweithrediadau y cytunwyd arnynt o dan y ffurflen defnyddio offer yn ddilys am 12 mis o ddyddiad cychwyn y gwaith ar y safle. Os byddwch yn dymuno parhau â'r gwaith ar ôl y cyfnod o 12 mis, bydd angen i chi gyflwyno ffurflen defnyddio offer newydd a ffi atodol. Noder y bydd y cais estynedig am ddefnyddio offer symudol yn cael ei asesu yn erbyn y diffiniad o offer symudol. Os yw'n methu â bodloni'r diffiniad hwn, ni ellir cymeradwyo'r defnydd.

Ar ôl iddynt gael eu cytuno yn ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'n rhaid cydymffurfio â thelerau'r ffurflen defnyddio offer hon. Gellir gwneud newidiadau i'r manylion sydd wedi'u cynnwys yn y ffurflen defnyddio offer hon, ond dim ond os yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno i'r newidiadau yn ysgrifenedig yn gyntaf y gellir gweithredu arnynt.

Mae'r ffurflen defnyddio offer y cytunwyd arni yn rhan o'ch trwydded offer symudol ac felly gallai gweithredu'n groes i'r ffurflen y cytunwyd arni neu unrhyw reol arall yn eich trwydded offer symudol arwain at Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd camau gorfodi. Bydd ein canllawiau 'Sut i Gydymffurfio â'ch Trwydded Amgylcheddol' yn eich helpu i wneud yn siŵr nad ydych yn torri unrhyw un o reolau eich trwydded.

Cewch gyflwyno cymaint o ffurflenni defnyddio offer ag y dymunwch. Mae hyn yn caniatáu i chi, fel deiliad y drwydded, weithredu o dan yr un drwydded offer symudol ar gynifer o safleoedd ag y mae ffurflenni defnyddio offer y cytunwyd arnynt yn ysgrifenedig gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Dim ond y prosesau trin symudol a nodir yn eich trwydded offer symudol y gellir eu dilyn.

Efallai y bydd gwaith gwastraff, gan gynnwys defnyddio offer symudol, angen cydsyniad cynllunio. Rydym yn argymell eich bod yn ceisio cyngor gan eich awdurdod cynllunio lleol cyn ymgymryd ag unrhyw waith gwastraff.

## Yr hyn y mae angen i chi ei wneud

Bydd yr wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn y ffurflen defnyddio offer yn ein helpu i benderfynu a all eich defnydd offer arfaethedig gydymffurfio â rheolau eich trwydded. Mae'n bwysig eich bod yn cwblhau'r ffurflen yn gywir gan y bydd yn ein helpu i ymdrin â'ch cais yn gyflymach.

Pan fyddwch yn gwneud y cais, gofalwch eich bod yn gwneud y canlynol:

- Atebwch bob cwestiwn. Os oes yna rai cwestiynau nad ydynt yn berthnasol i chi, ysgrifennwch 'Amherthnasol' a rhowch gyfiawnhad. Os byddwch yn hepgor unrhyw beth, efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi i gael yr wybodaeth, a gallai hyn ohirio ein penderfyniad.

- Caniatewch o leiaf 25 diwrnod gwaith o'r adeg y mae eich cais yn gyflawn i ni wneud ein hasesiad. Ystyrir bod y cais yn gyflawn pan fydd yr holl ddogfennau wedi cael eu hanfon a'ch bod wedi talu'r ffi gywir.

Ystyrir bod y cais yn gyflawn pan fydd yr holl ddogfennau wedi cael eu hanfon a'ch bod wedi talu'r ffi gywir.

Os byddwch yn cynnal unrhyw waith gwastraff, gan gynnwys storio gwastraff, heb gadarnhad ysgrifenedig bod y defnydd offer wedi'i gytuno, byddwch yn cyflawni trosedd o ddyddodi gwastraff heb drwydded.

## Faint y bydd yn ei gostio?

Mae manylion y taliadau i'w gweld yn yr adran 'Ein taliadau' ar ein gwefan.

# Cwblhau'r ffurflen

## Ynglŷn â'ch trwydded

### Y drwydded sy'n berthnasol i'r defnydd hwn

Dewiswch yr opsiwn sy'n berthnasol, yn seiliedig ar y math o drwydded sydd gennych a'r gweithgaredd yr ydych yn dymuno ei gyflawni. Mae'n rhaid i'r gweithgaredd a nodir yn y cais i ddefnyddio offer gyd-fynd â graddau'r gweithgaredd(au) yn y drwydded berthnasol. Er enghraifft, y mathau o wastraff, tunelledd, mathau o driniaeth ac ati.

Nodwch rif y drwydded sy'n berthnasol i'r defnydd offer. Ni allwn sicrhau defnydd offer oni bai fod trwydded berthnasol mewn grym.

### Enw a chyfeiriad deiliad y drwydded (gweithredwr)

Rhowch enw a phrif gyfeiriad y gweithredwr neu'r cwmni, unigolyn neu sefydliad sy'n gwneud y cais.

### Â phwy y gallwn siarad ynghylch y cais hwn i ddefnyddio offer?

Rhowch fanylion y sawl a fydd yn gyswllt ar gyfer ymholiadau am yr wybodaeth yn y ffurflen defnyddio offer hon. Gallai hwn fod yn weithredwr neu'n unigolyn sy'n gweithredu ar ran y gweithredwr, fel ymgynghorydd. Dylai'r unigolyn allu ateb ymholiadau am unrhyw ddarn o wybodaeth yn y ffurflen, neu wybodaeth ychwanegol fel y datganiad budd neu'r asesiadau risg.  Efallai y byddwn angen siarad ag ef / hi hefyd os bydd unrhyw wybodaeth neu'r ffi ar goll neu'n anghywir. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau nad yw cytuno'r ffurflen defnyddio offer yn cael ei ohirio heb fod angen.

## Manylion defnyddio

### A ymgynghorwyd â ni ar eich model safle cysyniadol / asesiad risg / strategaeth adfer?

Bydd hyn yn ein helpu i wneud penderfyniad ynghylch eich cais cyn gynted â phosibl. Os nad ydych wedi ymgynghori â ni eisoes, rydym yn awgrymu eich bod yn gwneud hynny cyn gwneud eich cais i ddefnyddio offer.

### A fu unrhyw newidiadau i'ch cynnig ers yr ymgynghoriad?

Nodwch fanylion y newidiadau i'ch cynnig. Os yw eich cynnig wedi newid, efallai y bydd angen asesiad pellach o hyn a gall ymestyn yr amser penderfynu.

### Os nad ydych wedi cael unrhyw gyngor ynghylch cynllunio neu gyngor cyn ymgeisio, a hoffech chi i'r cais hwn gael ei asesu heb i dargedau adfer gael eu cytuno ymlaen llaw gennym ni?

Noder mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y gwaith adfer wedi'i gwblhau i gyflwr boddhaol.

Argymhellir eich bod yn cysylltu â ni am gyngor cyn ymgeisio. Os ydych wedi cofrestru defnydd offer o dan offer symudol, gallwn roi hyd at awr o gyngor i chi. Mae'r ymgynghoriad hwn o fudd i chi gan y bydd yn helpu i sicrhau bod gennych gais cyflawn.

### A ydych chi wedi cael unrhyw gyngor arall cyn ymgeisio gennym ni?

Os ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y defnydd offer hwn cyn cyflwyno'r cais, rhowch y rhif cyfeirnod cyn ymgeisio.

## Ynglŷn â'r safle

### Manylion y safle

Rhowch gyfeiriad y safle lle bydd y driniaeth yn digwydd a chyfeirnod grid 12 ffigur o ganol y safle. Gellir dod o hyd i gyfeirnodau grid ar UK Grid Reference Finder.

### A ydyw eich safle wedi'i leoli o fewn safle a gwmpesir gan drwydded amgylcheddol arall?

Rhowch enw'r deiliaid a manylion cyfeirnod y drwydded bresennol. Gwiriwch y drwydded bresennol am amodau, yn enwedig terfynau allyriadau o ran cydymffurfio. Os yw'r gweithgaredd arfaethedig yn cael ei weithredu fel 'gweithgarwch sy'n uniongyrchol gysylltiedig' â'r drwydded bresennol, byddai'n rhaid amrywio'r drwydded bresennol i gynnwys y gweithgaredd arfaethedig.

### Atodwch gynllun safle yn dangos y darn o dir lle bydd y driniaeth yn digwydd

Mae'n rhaid i chi ddarparu cynllun neu gynlluniau safle cywir a manwl.

Rhaid iddo ddangos yr holl wybodaeth a restrir isod. Ni allwn asesu eich cais yn gywir heb yr wybodaeth hon:

- Ffin safle'r gwaith (wedi'i amlinellu'n glir mewn coch)
- Trefniadau diogelwch a mynediad (gan gynnwys manylion ychwanegol lle bydd diogelwch amgen, ac eithrio'r hyn a nodir yn y drwydded, i'w ddarparu [e.e. uned wedi'i chynwysyddeiddio a phibellau wedi'u claddu] neu pan fo unigolion eraill yn

gyfrifol am ddiogelwch safle cynllun ailddatblygu mwy a'ch bod yn dibynnu ar y diogelwch hwnnw ar gyfer eich gwaith)

- Ardaloedd o briddoedd gwastraff a deunyddiau, sylweddau neu gynhyrchion halogedig i'w hadfer gan yr offer symudol
- Lleoliad y prif offer a chyfarpar
- Mannau trin a storio ar gyfer y broses, gan gynnwys unrhyw adeiladau, baeau a thanciau sefydlog, ardaloedd dan gwarantin, ardaloedd â llawr caled, palmentydd anathraidd a draeniad wedi'i selio. Pan nad yw'n bosibl darlunio'r rhain yn glir, cynhwyswch destun sy'n cadarnhau y bydd yr holl ddeunyddiau a allai lygru yn cael eu dyddodi, eu storio, eu trin neu eu trafod fel arall mewn rhan o'r safle lle mae system cyfyngiant a draeniad peirianyddol wedi'i darparu
- Systemau draenio ar gyfer safle'r gwaith, gan gynnwys yr holl rhyng-gipwyr, sympiau a mannau gollwng
- Lleoliad arfaethedig mannau monitro ffiniau ac unedau rheoli llygredd (e.e. ar gyfer sŵn, llwch ac allyriadau cyfansoddion organig anweddol)
- Derbynyddion posibl (e.e. tai) – nodwch ar gynllun y safle yr holl ffyrdd gwahanol y mae'r tir sy'n union o amgylch y safle yn cael ei ddefnyddio, gan gynnwys unrhyw ardaloedd o fannau agored cyhoeddus
- Safleoedd gwarchodedig – dim ond ardaloedd cadwraeth arbennig, ardaloedd gwarchodaeth arbennig, safleoedd Ramsar neu safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig o fewn 1 cilometr i safle'r gwaith y mae angen eu nodi ar gynllun y safle

## Mathau a meintiau'r gwastraff

### Nodwch y mathau o wastraff, meintiau, halogion, a chod y Catalog Gwastraff Ewropeaidd ar gyfer pob gwastraff i'w drin ar y safle. Hefyd, darparwch fanylion y technolegau trin i'w defnyddio ar gyfer pob gwastraff

Mae'n gyflymach asesu'ch cais os oes gennym fanylion yr halogion sy'n bresennol a'u hepil-gynhyrchion, y dull adfer, a'r technegau gweithredu a gynigir.

Rhowch fanylion sy'n ymwneud â natur y deunydd halogedig, maint, yr halogiad i'w drin, cod y Catalog Gwastraff Ewropeaidd, a'r dechnoleg drin yr ydych am ei defnyddio. Bydd yn ein helpu i brosesu eich cais os byddwch hefyd yn darparu manylion unrhyw wastraff a gynhyrchir fel rhan o'r driniaeth.

Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r cod gwastraff chwe digid mwyaf priodol a disgrifio'r gwastraff gan ddefnyddio ei ddisgrifiad / enw cyffredin. Bydd cynhyrchydd y gwastraff yn defnyddio'r canllawiau technegol ar ddosbarthu gwastraff – WM3. Os yw eich trwydded yn cynnwys rhestr o wastraff, mae'n rhaid i chi sicrhau bod y gwastraff yr ydych am ei drin wedi'i restru o fewn cwmpas y drwydded. Gweler hefyd sut i ddosbarthu gwahanol fathau o wastraff.

Rhestrwch y technolegau yr ydych chi am eu defnyddio. Dylai’r rhain gyd-fynd â’r rhai yn eich trwydded. Ni fyddwn yn cymeradwyo cais i ddefnyddio offer os yw’n cynnwys technolegau nad ydynt wedi’u cynnwys yng nghwmpas y drwydded. Bydd yn rhaid i chi naill ai dynnu’r technolegau hyn o’ch cais i ddefnyddio offer neu wneud cais i amrywio’ch trwydded. Ni fyddwn yn gallu cytuno ar eich cais i ddefnyddio offer nes bod yr amrywiad wedi’i gwblhau.

# Gweithgareddau penodol i’w cynnal ar y safle

## Rhowch fanylion am sut mae’r dechnoleg benodol yn addas ar gyfer y driniaeth

Rhowch ddisgrifiad byr o’r gweithgareddau sydd wedi’u cynllunio ac eglurwch sut y maent yn gysylltiedig â’i gilydd. Rhowch ddisgrifiad o’r dechnoleg neu’r technolegau trin awdurdodedig, a rhowch fanylion ynghylch pam y mae’r technolegau hyn yn addas i drin yr halogion penodol yn y deunydd gwastraff.

## Rhowch fanylion sut y mae deunyddiau / gwastraff gweddilliol na ellir eu trin gan y dechnoleg benodol i gael eu trin ar y safle

Dylai hefyd gynnwys yr hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud ag unrhyw ddeunyddiau / gwastraff ar y safle na ellir eu trin. Nodwch sut y bydd y rhain yn cael eu nodi a’r dulliau y byddwch yn eu defnyddio i sicrhau eu bod yn cael eu cadw ar wahân i’r deunyddiau / gwastraff hynny y gellir eu trin.

## Nodwch alluoedd mwyaf posibl y cyfleusterau cwarantîn i’w defnyddio ar gyfer storio deunyddiau halogedig y bwriedir eu hailbrofi, eu hailbrosesu neu eu gwaredu oddi ar y safle

Dylech hefyd gynnwys manylion unrhyw gyfyngiad y byddwch yn ei roi ar waith i atal neu leihau llygredd. Nodwch yn glir leoliad unrhyw ardaloedd dan gwarantin ar gynllun y safle.

# Gweithgareddau sy’n cynnwys mewnforio gwastraff

## A ydyw’r safle yn rhan o brosiect clwstwr?

Nodwch a ydyw’r safle’n rhan o brosiect clwstwr. Dyma pan fydd dau safle neu ragor yn defnyddio cyfleuster trin a rennir (safle canolbwynt) i’w helpu i adennill ac ailddefnyddio priddoedd gwastraff.

I gael rhagor o arweiniad ynghylch a ydyw eich safle yn rhan o brosiect clwstwr ai peidio, cyfeiriwch at Diffiniad o Wastraff CL:AIRE: Cod Ymarfer

### Rhowch fanylion y gweithdrefnau sydd i'w mabwysiadu ar y safle i sicrhau mai dim ond y deunyddiau hynny y gellir eu trin â'r dechnoleg benodol fydd yn cael eu trin

Dylech ddarparu manylion y mesurau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau mai dim ond y pridd gwastraff, deunydd halogedig, neu ddŵr daear halogedig y gellir ei drin gan y technolegau yr ydych yn bwriadu eu defnyddio fydd yn cael eu trin. Mae'n rhaid i'ch gweithdrefn derbyn gwastraff fod yn ddigon cadarn i atal gwastraff annerbyniol rhag dod i'r safle. Efallai eich bod eisoes wedi darparu rhywfaint o'r wybodaeth hon yn system rheoli'r amgylchedd ar gyfer eich trwydded. Gallwch gyfeirio'n ôl at y ddogfen hon a defnyddio'r adran hon i roi gwybodaeth am unrhyw weithdrefnau safle-benodol ychwanegol y byddwch yn eu defnyddio.

## Hyd y defnydd hwn

### Am ba hyd (cyfnod penodedig) y mae angen y ffurflen defnyddio offer hon?

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym am ba mor hir yr ydych am i'r defnydd o offer bara. Fel arfer rydym yn disgwyl i'r defnydd o offer bara am uchafswm o flwyddyn (52 wythnos). Os credwch y bydd eich defnydd o offer yn para am fwy na blwyddyn, mae'n rhaid i chi roi cyfiawnhad digonol gyda'ch cais ar yr adeg cymeradwyo cychwynnol.

Dylid llenwi un ffurflen defnyddio offer hyd yn oed pan ragwelir y gall fod sawl cam penodol i'r gweithgareddau adfer y gellir eu cwblhau dros gyfnod o amser.  Dylai gweithredwyr roi sylw i unrhyw weithgareddau a fydd yn cael eu cyflawni mewn perthynas ag 'adlamu' sy'n gysylltiedig â'r dechnoleg.

Os ydych yn gwneud cais i ymestyn eich defnydd o offer, mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen defnyddio offer a rhoi eich rhif cyfeirnod defnyddio offer blaenorol. Bydd angen i chi hefyd ddarparu tystiolaeth ynghylch pam mae angen ymestyn cyfnod y driniaeth, ynghyd â gwybodaeth am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd ar y safle yn ystod cyfnod cymeradwy eich gwaith.

## Goruchwyliaeth reoli

### Rhowch enw a manylion cyswllt y rheolwr technegol gymwys a'r unigolyn cymwys enwebedig a fydd yn goruchwylio'r defnydd hwn o offer

Mae'n rhaid i bob deiliad trwydded amgylcheddol ddangos cymhwysedd technegol ar y cam gwneud cais am drwydded, neu'n unol ag unrhyw ddarpariaethau pontio a allai roi amser i gymhwysedd technegol gael ei gaffael. Bydd rheolwr technegol gymwys yn cael eu nodi ar yr adeg hon.

Pan ddefnyddir offer symudol, gellir ymgymryd â'r gweithgaredd gryn bellter o brif swyddfa deiliad y drwydded. Pan fo offer yn cael eu defnyddio ar draws y wlad, rydym angen

gwybod y gall y gweithredwr fodloni'r gofynion o sicrhau bod ganddo reolaeth dros weithrediadau o ddydd i ddydd drwy ei weithdrefnau rheoli ac unrhyw drefniadau contractiol. Os bydd pethau'n mynd o'i le, deiliad y drwydded sy'n atebol yn y pen draw. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i chi enwebu unigolyn cymwys a fydd yn brif gyswllt ar gyfer y defnydd offer ac a fydd yn atebol i'r rheolwr technegol gymwys.

Mae'n rhaid i'r unigolyn cymwys enwebedig allu ymweld â safleoedd i sicrhau nad yw'r gwaith gwastraff yn achosi unrhyw broblemau amgylcheddol. Mae'n rhaid iddo allu cyrraedd y safle mewn amser rhesymol rhag ofn y bydd unrhyw broblemau yn codi, neu os bydd swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru yn dymuno cyfarfod ag ef ar y safle.

Efallai y bydd sawl unigolyn cymwys enwebedig ar gyfer unrhyw un gweithredwr.

### Rhowch wybodaeth am y cynllun goruchwylio safle i'ch rheolwr sy'n dechnegol gymwys. Nodwch pa ddulliau trin y gellir eu gweithredu heb oruchwyliaeth, a rhowch gyfiawnhad o ran pam y dylai hyn fod yn wir

Mae'n ofynnol i unigolyn fod yn bresennol am o leiaf awr yr wythnos.

Ceir rhagor o ganllawiau ynghylch rheolaeth dechnegol gymwys a gofynion presenoldeb yma: Sut i gydymffurfio â'ch trwydded amgylcheddol

Cytunir ar oruchwyliaeth safle ar gyfer dulliau trin y gellid eu gweithredu heb oruchwyliaeth fesul achos.

## Model safle cysyniadol ac asesiad risg

### Darparwch fodel safle cysyniadol sy'n nodi'r holl gysylltiadau llygredd credadwy (perthnasau ffynhonnell–llwybr–derbynnydd) ac effeithiau posibl ar yr amgylchedd lleol a allai godi o ganlyniad i'r gweithgareddau triniaeth arfaethedig

Dylai'r model safle cysyniadol ystyried yr holl ffynonellau llygredd posibl gan gynnwys:

- Yr halogion eu hunain
- Sgil-gynhyrchion o ganlyniad i'r camau unioni
- Gweddillion gwastraff a gynhyrchir yn ystod y camau unioni; e.e. dyfroedd gwastraff
- Allyriadau (e.e. llwch, ffibrau, gronynnau, anweddau, nwyon, aerosolau, arogleuon, sŵn, dirgrynu a chyfansoddion organig anweddol)
- Adweithredyddion a ddefnyddir
- Y deunydd terfynol wedi'i drin

- Storio olew tanwydd neu gemegol

Dylai'r model safle cysyniadol restru'r holl lwybrau safle-benodol sy'n bodoli heb i fesurau rheoli (e.e. system cyfyngiant peirianyddol) fod ar waith. Gallai hyn gynnwys cyswllt dermol, anadliad, mudo trwy ddŵr daear a chreigiau sydd wedi'u torri, dŵr ffo wyneb y ddaear ac ati.

Dylai'r model safle cysyniadol nodi'r derbynyddion gwirioneddol o amgylch y safle a allai fod mewn perygl, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw safleoedd cynefin arbennig y gellir effeithio arnynt.

Gallwch ddewis fformat eich model safle cysyniadol. Croesgyfeiriwch unrhyw amodau yn eich trwydded, lle bo'n berthnasol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i fesurau rheoli llygredd priodol fod ar waith.

Mae asesu risg yn golygu nodi cysylltiadau ffynhonnell–llwybr–derbynnydd ac yna cyflwyno'r rheolaethau rheoli sy'n dileu neu'n lleihau unrhyw risgiau i'r derbynnydd. Mae'n rhaid i chi nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd i reoli'r risg i'r derbynyddion sensitif a nodir. Dylai'r rhain gynnwys gweithdrefnau rheoli a gweithredu ysgrifenedig sy'n ofynnol yn rhan o'ch trwydded i reoli unrhyw risg i iechyd pobl neu lygredd i'r amgylchedd. Mae'r rheolaethau a roddir ar waith yn dibynnu ar briodweddau'r gwastraff a pha mor sensitif yw'r derbynyddion. Mae canllawiau ychwanegol wedi eu cynnwys yn Asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau penodol: trwyddedau amgylcheddol.

## Dod o hyd i wybodaeth am dderbynyddion sensitif

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth yma:

- System fapio gwybodaeth amgylcheddol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru / Mapiau
- Cyfoeth Naturiol Cymru / Canfod ardaloedd o dir a môr gwarchodedig
- Catalog data | DataMapCymru (llyw.cymru)
- Hafan – NBN Atlas Cymru

# Rheoli llygredd

## Rhowch fanylion unrhyw fesurau penodol i'r safle y mae eu hangen i reoli / lleihau allyriadau, ac i atal llygredd i'r amgylchedd a/neu niwed i iechyd pobl sy'n deillio o'ch gwaith trin

Dylai hyn fanylu ar y mesurau rheoli y byddwch yn eu rhoi ar waith i leihau risgiau / effeithiau a nodwyd yn eich asesiad risg.

Er enghraifft:

- Sut yr ydych yn mynd i gasglu, trin a chynnwys unrhyw lwch, ffibrau a gronynnau o'r broses drin i atal llygredd a niwed i iechyd pobl

- Sut yr ydych yn mynd i leihau unrhyw sŵn a dirgryniadau ar y safle, e.e. cynllun safle strategol, sgrinio, byndio dros dro

- Sut y bydd arogleuon ac allyriadau cyfansoddion organig anweddol yn cael eu rheoli ar safle'r gwaith

- Os yw natur y deunydd sydd i'w storio a'i drin yn golygu y bydd yn cynnwys sylweddau a fydd yn denu plâu neu garthyswyr, neu'n debygol o ryddhau sbwriel, sut y caiff y rhain eu rheoli

- Sut y caiff halogiad dŵr daear a dŵr wyneb ei atal neu ei leihau

# Cynlluniau monitro allyriadau

## Darparwch gynllun monitro penodol i'r safle ar gyfer unrhyw allyriadau a all gael eu cynhyrchu gan y gwaith trin arfaethedig

Gall gynnwys pob un o'r canlynol, neu rai ohonynt: dŵr daear, dŵr wyneb, nwyon pridd, allyriadau aer, sŵn, dirgryniad, aroglau a chyfansoddion organig anweddol. Nodwch y paramedrau dangosyddion yr ydych chi'n bwriadu eu defnyddio ar gyfer pob un o'r allyriadau sy'n cael eu monitro, a rhowch gyfiawnhad pam mai nhw yw'r paramedrau mwyaf priodol i ganfod effaith ac atal llygredd. Yn dibynnu ar eich technoleg, dylai'r cynllun gynnwys monitro allyriadau yn y tarddle ac allyriadau ehangach (sy'n ffoi).

Mae'n rhaid i chi ddarparu cynllun monitro safle-benodol sy'n briodol ar gyfer y gwaith arfaethedig. Pan fo'ch asesiad risg wedi dangos bod risg o allyriadau y mae angen ei reoli, mae'n rhaid i chi wneud gwaith monitro er mwyn canfod pa allyriadau ydynt a nodi effeithiolrwydd unrhyw systemau i leihau allyriadau. Er enghraifft, byddai pentyrru stoc ar safle sydd wedi'i amgylchynu gan eiddo preswyl yn gofyn am fonitro aer ar gyfer llwch a chyfansoddion organig anweddol yn agos at y pentwr, ac wrth ffiniau, yn dibynnu ar leoliad y derbynyddion. Byddai lefel y monitro yn dibynnu ar y risgiau dan sylw, ond fel rheol safonol dylid ystyried monitro gweledol ac arogleuol dyddiol.

Dylai eich cynlluniau monitro gynnwys y canlynol:

- Y llygryddion i'w monitro

- Terfynau ar gyfer allyriadau a throthwyon ar gyfer pob llygrydd

- Nifer a lleoliad mannau allyriadau tarddle penodol. Mae allyriadau tarddle penodol yn cynnwys allyriadau simnai, nwyon o egsôsts, elifion o weithfeydd trin dŵr. Mae'n rhaid monitro / samplu'r rhain cyn rhyddhau. Rhaid hefyd monitro'r cyfryngau amgylcheddol y maent yn cael eu gollwng iddynt (aer, dŵr daear a dŵr wyneb – fel arfer ar ffiniau safleoedd) i sicrhau bod safonau ansawdd amgylcheddol yn cael eu cynnal

- Manylion dŵr mewnlifol ac elifion. (Defnyddiwch hwn dim ond os nad oes terfynau o ran allyriadau ar gyfer llygrydd aer peryglus penodol. Mae'n rhaid cynnal cyfradd gwaredu o 95% bob amser)

- Protocol monitro sy’n cynnwys amlder y gwaith monitro, math o offer, graddnodi, achredu, casglu samplau a’r weithdrefn
- Profiad a chymwysterau’r personél sy’n gwneud y gwaith monitro a’r personél sy’n gyfrifol am ddehongli a gweithredu ar ganlyniadau’r gwaith monitro
- Cynllun gweithredu sy’n ymwneud ag allyriadau (y camau i’w cymryd os eir y tu hwnt i’r trothwy y cytunwyd arni)
- Mae’n bosibl y bydd angen rhaglen fonitro sylfaenol pan fo ffynonellau allyriadau eraill sy’n debyg i’r gweithgarwch arfaethedig eisoes yn bodoli. Byddai lefelau cefndirol yn gweithredu fel lefel gyfeirio ar gyfer y paramedr(au) perthnasol a fyddai’n cael eu monitro. Bydd hyn yn eich rhybuddio am gynnydd neu ostyngiad mewn allyriadau

Ar gyfer monitro ansawdd aer ger ffiniau’r safle, mae’n rhaid darparu trothwy ar gyfer pob paramedr (e.e. rhwng 80% a 90% o faen prawf ansawdd aer). Rhaid i drothwyon perthnasol amddiffyn pob cyfrwng amgylcheddol neu iechyd dynol. Ar gyfer allyriadau tarddle penodol (allyriadau simnai ar ôl sgwrio, ocsideiddio, ac yn y blaen), dylech ddarparu asesiad H1 meintiol. Os yw cynllun monitro eisoes wedi’i gwblhau ar gyfer safle’r gwaith at ddibenion eraill, e.e. rheoli datblygu, gallwch gynnwys unrhyw rannau ohono yr hoffech eu defnyddio i ddangos nad oes unrhyw effaith o’ch gweithgareddau yn cael eu hymgorffori yn y ffurflen defnyddio offer hon. Fodd bynnag, byddem o leiaf yn disgwyl gweld trothwyon ar gyfer sŵn, llwch a chyfansoddion organig anweddol.

### Monitro sŵn

Dylid anelu at fonitro sŵn i sicrhau nad oes unrhyw achos rhesymol i annifyrrwch i bobl y tu hwnt i’r ffin weithredu. Nid yw trothwyon sy’n seiliedig ar iechyd a diogelwch gweithwyr ar y safle yn briodol. Cynigion ar gyfer trothwyon sŵn sy’n ystyried lefelau sŵn cefndirol ar ffin y safle yn unol â BS 4142:2014+A1:2019 Dulliau ar gyfer graddio ac asesu sain diwydiannol a masnachol a thrwyddedu amgylcheddol: H3 rhan 2 asesu a rheoli sŵn.

## Cadw cofnodion – comisiynu, gweithredu a chynnal a chadw

### Rhowch fanylion comisiynu, gweithredu a chynnal a chadw, gan gynnwys dogfennaeth a chadw cofnodion, i sicrhau nad yw allyriadau o’r broses yn achosi llygredd i’r amgylchedd a niwed i iechyd pobl

Mae’n rhaid i chi ddarparu manylion eich gweithdrefnau comisiynu, gweithredu, a chynnal a chadw gan gynnwys dogfennaeth a chadw cofnodion i ddangos nad yw allyriadau o’ch prosesau trin yn achosi llygredd neu niwed i iechyd dynol.

## Canllawiau ychwanegol mewn perthynas â chomisiynu:

Dim ond y deunyddiau y mae eu hangen i gwblhau'r comisiynu y caniateir eu trin hyd nes y bydd adroddiad dilysu, a baratowyd gan unigolyn cymwys, e.e. peiriannydd, microbiolegydd (yn dibynnu ar y dechnoleg), wedi'i ddarparu i Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod comisiynu wedi'i gyflawni'n llwyddiannus. Mae'n rhaid i'r gweithredwr gydymffurfio ag amodau'r drwydded yn ystod gweithrediadau comisiynu.

DIWEDD Y DDOGFEN